**BORE SIARAD CYMRAEG**

Ar ôl seibiant dros yr haf, bydd y 'Bore Siarad Cymraeg' misol yn Hyb Rhiwbina yn ailddechrau ar 12 Medi. Dyma fanylion cyfarfodydd Medi a Hydref:

**Sadwrn, 12 Medi 2026**
Bore Siarad Cymraeg. Dewch i ymarfer eich Cymraeg a gwrando ar sgwrs gan yr Athro Christine James ar y testun 'Dagrau Tost: Cerddi am Drychineb Aber-fan', yn Hyb Rhiwbina am 10.30am. Croeso cynnes i bawb.

**Sadwrn, 10 Hydref 2026**
Bore Siarad Cymraeg. Dewch i ymarfer eich Cymraeg a gwrando ar sgwrs gan yr Athro E. Wyn James ar y testun 'O Gwm Taf i Ddyffryn Camwy: Rachel ac Aaron Jenkins, "achubwyr" y Wladfa Gymreig ym Mhatagonia', yn Hyb Rhiwbina am 10.30am. Croeso cynnes i bawb.

Mae'r 'Bore Siarad Cymraeg' yn cael ei gynnal ar fore Sadwrn unwaith y mis rhwng misoedd Medi a Mai. Cynhelir y cyfarfodydd ar yr ail Sadwrn yn y mis yn yr Hyb ym Mhen-y-dre, Rhiwbina, CF14 6EH, rhwng 10.30am a hanner dydd.

Mae'r cyfarfodydd yn rhad ac am ddim, ac nid oes angen cofrestru ymlaen llaw. Maent wedi eu hanelu yn arbennig at siaradwyr Cymraeg o lefel ganolradd ac uwch, ond mae croeso cynnes i bawb eu mynychu.

Mae'r 'Bore Siarad Cymraeg' yn cael ei gynnal dan nawdd Eglwys Efengylaidd Gymraeg Caerdydd.

Mae cyfle hefyd i gymdeithasu yn y Gymraeg mewn boreau coffi anffurfiol sy'n cael eu cynnal gan yr Eglwys yng nghapel y Tabernacl, 81 Heol Merthyr, Yr Eglwys Newydd, CF14 1DD, rhwng 10.00am a hanner dydd ar ddyddiau Gwener yn ystod tymhorau'r ysgolion.

Bydd y bore coffi yng nghapel y Tabernacl ddydd Gwener, 25 Medi, yn Fore Coffi Macmillan.

Croeso cynnes i bawb.